

Cydlyniant y cwricwlwm

Rydym wedi cyfeirio at bwysigrwydd alinio'r cwricwlwm yn y trosolwg cyntaf ('Dulliau o greu cwricwlwm'). Cysyniad pwysig arall sy'n sail i wireddu cwricwlwm yw cydlyniant. Mae'r trosolwg hwn yn trafod beth yn union yw cydlyniant, a pham mae'n bwysig wrth greu cwricwlwm ar lefel cenedlaethol a lleol.

Adrannau

Cydlyniant y cwricwlwm	1
1 Beth yw cydlyniant y cwricwlwm?	2
2 Dulliau o greu cydlyniant	2
3 Fframweithiau cwricwlwm fel canllaw ar gyfer cydlyniant	3
3.1 Syniadau i'w hystyried.....	3
4 Gwireddu polisi cwricwlwm yn arferion yr ystafell ddisbarth.....	3
4.1 Syniadau i'w hystyried.....	4
5 Cyfeiriadau	5

1 Beth yw cydlyniant y cwricwlwm?

Ar lefel eang, cwricwlwm cydlynus yw 'un sy'n dal ynghyd, sy'n gwneud synnwyr fel rhywbeth cyfan': mae'r darnau, beth bynnag ydynt, wedi'u huno a'u cysylltu gan y teimlad hwnnw o'r cyfan' (Bean, 1995, yn Roebrig et al., 2021, t.4). Felly, cwricwlwm cydlynus yw un sy'n 'golygu undod a chysylltiad o ran yr amcanion, cynnwys, arferion cyfarwyddiadol, profiadau dysgu ac asesiadau' (Sullanma et al. 2019b, t.210).

Yn ôl Porter (yn Hewitt, 2006), mae cydlyniant yn fwy tebygol os oes gan bolisi'r cwricwlwm y nodweddion canlynol:

1. Mae'n nodi'n glir beth fydd y cwricwlwm a sut bydd yn cael ei drefnu.
2. Mae'n hunanesboniadol: mae'n cyfeirio at ei hun mewn ffordd sy'n golygu bod cyfranogwyr a rhanddeiliaid yn ei ddeall ac yn gwybod sut bydd yn effeithio arnynt yn weithredol.
3. Mae'n bosibl ei atgynhyrchu ac mae'n ddichonadwy: gellir ei gymhwyso at wahanol leoliadau yn yr ysgol gyda'r tebygolrwydd y bydd yn llwyddo.

2 Dulliau o greu cydlyniant

Mae dau brif dull o greu cydlyniant yn y cwricwlwm:

Y dull cydlynol	Y dull integreiddiol
<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r cwricwlwm yn cael ei ysgogi gan safoni a safbwyntiau systemau 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae cydlyniant yn ymwneud â sut mae nodau, cynnwys, ymagweddu at wybodaeth, sgiliau, ac ati, ac ymagweddu at addysgeg ac asesu yn gyson ar draws y cwricwlwm bwriedig a'r cwricwlwm a addysgir.
<ul style="list-style-type: none"> • Ystyrir cydlyniant yn nhermau cysylltu deunyddiau, gwaith paratoi athrawon, ac ati, â'r cwricwlwm cenedlaethol. Mae cydlyniant yn cael ei weld fel deiliant amcan. 	<ul style="list-style-type: none"> • Ystyrir cydlyniant yn nhermau hormoneiddio/alinio cwricwlwm, addysgeg ac asesu. Mae cydlyniant yn dibynnu ar wybodaeth broffesiynol athrawon am y cwricwlwm, addysgeg ac asesu.
<ul style="list-style-type: none"> • Mae cyflwyno'r cwricwlwm yn rôl broffesiynol: caiff cydlyniant ei yrru gan y cwricwlwm cenedlaethol. • Mae cyfathrebu clir, effeithlon o'r brig i lawr yn gyrru'r broses weithredu a dealltwriaeth athrawon o'r cwricwlwm a'r hyn mae'n ei olygu ar gyfer addysgu a dysgu. • Mae'n gogwyddo tuag at ymagwedd orfodol o ran ei weithrediad: mae'n orfodol i athrawon addysgu'r cwricwlwm cenedlaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae athrawon yn asiantau gweithredol yn y broses o lunio cwricwlwm: caiff cydlyniant ei greu gan ddehongliadau athrawon o ganllawiau'r cwricwlwm. • Mae trosi cwricwlwm yn arferion yn dibynnu ar brosesau 'gwneud synnwyr' o'r gwaelod i fyny. Gall diwygiadau gynnwys athrawon yn ailfeddwl neu'n ailwerthuso eu ffyrdd o feddwl a gweithio, eu hegwyddorion personol a phroffesiynol, a'u hunaniaeth bersonol' (Sundberg, 2022). • Mae'n tueddu i fod yn dull gweithredu 'bwriadus': mae'n gofyn i athrawon drawsnewid y cwricwlwm 'yn wersi ystyrion drwy ddibynnu ar eu

	proffesiynoldeb eu hunain' (Haapaniemi et al. 2020, t.547).
--	---

Gweler Haapaniemi et al. (2020); Soini et al. (2022), Sundberg (2022) a Sullanmaa et al. (2019a)

3 Fframweithiau cwricwlwm fel canllaw ar gyfer cydlyniant

Mae Hewitt (2006) yn nodi bod gan fframwaith cwricwlwm ddau ddiben 'hanfodol':

1. gweithredu fel canllaw i drafod y cwricwlwm yn seiliedig ar safbwynt a fynegwyd yn glir;
2. helpu i nodi a sefydlu gweithgareddau sy'n ymwneud â gwaith y cwricwlwm (e.e. datblygu cwricwlwm ac asesu, cynnal y cwricwlwm, gwerthuso, ac ati).

Yn ôl Hewitt, mae fframwaith cwricwlwm yn helpu i ddylunio cwricwlwm drwy greu'r map meddyliol y bydd athrawon yn ei ddefnyddio i ddechongli'r cwricwlwm ac ymateb iddo wrth iddynt ei wireddu yn ymarferol.

3.1 Syniadau i'w hystyried

- Pa fap meddyliol sydd gennych chi o'r Cwricwlwm i Gymru?
- I ba raddau mae hwn yr un peth â'r map meddyliol roedd gennych cyn i chi ddechrau edrych ar y deunyddiau cymorth ymarferol? Os yw'n wahanol, sut mae eich map meddyliol wedi newid?

4 Gwireddu polisi cwricwlwm yn arferion yr ystafell ddosbarth

Yn ôl Priestley, bydd fframweithiau cwricwlwm yn 'ddiffygiol o ran cydlyniant os na fydd athrawon yn eu deall' (t.9), felly mae prosesau 'gwneud synnwyr' yn bwysig er mwyn cefnogi dealltwriaeth gyffredin. Mae gwneud synnwyr yn y cyd-destun hwn yn cyfeirio at 'broses ddynamig a rhyngweithiol sy'n galluogi unigolion a grwpiau o bobl i greu ystyr' (Pietarinen et al. 2017, t.26). Mae gwneud synnwyr ar y cyd o gymorth i ddiwygio'r

cwricwlwm drwy helpu i gael dehongliad cyffredin o'r diwygiad a'r hyn mae'n ei olygu yn ymarferol, ac felly mae'n cefnogi cydlyniant y cwricwlwm (Pietarinen et al. 2017, t.26).

Mae gwneud synnwyr yn hynod o bwysig pan fydd system yn defnyddio dull integreiddiol i greu cydlyniant cwricwlwm. Fodd bynnag, mae prosesau gwneud synnwyr yn gymhleth ac yn cymryd amser: nid yw gweithredu polisi 'byth yn fater syml o roi cyfarwyddiadau a gweithdrefnau ar waith' (März et al. 2013, t.13). At hyn, mae gweithredu polisi yn ddibynnol ar randdeiliaid niferus mewn system addysg yn gwneud synnwyr mewn ffordd 'ddynamig' (Tan 2019, t.537).

4.1 Syniadau i'w hystyried

- Pa 'synnwyr' rydych chi'n ei wneud o'r Cwricwlwm i Gymru fel ymarferydd?
- Sut mae'r synnwyr hwn yn dylanwadu ar y camau ymarferol rydych chi'n eu cymryd i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru?
- Sut mae eich synnwyr o'r cwricwlwm yn eich helpu chi i greu cwricwlwm yn lleol sy'n gydlynus o ran ei aliniad â fframwaith y cwricwlwm?
- Sut gallech chi greu gwell aliniad a chydlyniant o ran y cwricwlwm, addysgeg ac asesu?

5 Cyfeiriadau

Haapaniemi, J., Venäläinen, S., Malin, A. a Palojoki, P. (2021) Teacher autonomy and collaboration as part of integrative teaching – Reflections on the curriculum approach in Finland, *Journal of Curriculum Studies*, 53:4, 546-562.

Hewitt, T. (2006) *Understanding and shaping the curriculum: what we teach and why*. Sage Publications: Thousand Oaks, California.

März, V., Kelchtermans, G., Vanhoof, S. ac Onghena, P. (2013) Sense-making and structure in teachers' reception of educational reform. A case study on statistics in the mathematics curriculum. *Teaching and Teacher Education* 29: 13-24.

Pietarinen, J., Pyhältö, K. a Soini, T. (2017) Large-scale curriculum reform in Finland – exploring the interrelation between implementation strategy, the function of the reform, and curriculum coherence, *The Curriculum Journal*, 28:1, 22-40.

Tan, C. (2019) Sensemaking and sensegiving in schooling reform: South Korea and China, *Globalisation, Societies and Education*, 17:4, 536-547.

Soini, T., Pyhältö, K., Haverinen, K. et al. (2022) Building coherence and impact: differences in Finnish school level curriculum making. *Curric Perspect* 42: 121–133.

Roehrig, G.H., Dare, E.A., Ring-Whalen, E. et al. (2021) Understanding coherence and integration in integrated STEM curriculum. *IJ STEM Ed* 8, 2. <https://doi.org/10.1186/s40594-020-00259-8>

Sullanmaa, J., Pyhältö, K., Pietarinen, J., a Soini, T. (2019a). Curriculum coherence as perceived by district-level stakeholders in large-scale curriculum reform. *The Curriculum Journal*. Advance online publication. <https://doi.org/10.1080/09585176.2019.1607512>

Sullanmaa, J., Pyhältö, K., Pietarinen, J. a Soini, T. (2019b). Differences in state- and district-level stakeholders' perceptions of curriculum coherence and school impact in national curriculum reform. *Journal of Educational Administration*, 57: 3, 210-226.